

# SL(6)006 – Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021

## Cefndir a diben

Bydd y Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 (“Rheoliadau 2019”) sy’n gymwys mewn perthynas â Chymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddarparu eithriad rhag talu ffioedd am wasanaethau ardystio cyn-allforio ac allforio lle mae nwyddau'n symud o Gymru i fusnes neu unigolion preifat yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r eithriad hefyd yn berthnasol i symudiadau nwyddau gan unigolion preifat.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio gwall yn Atodlen 3 o Rheoliadau 2019, lle'r oedd y cyfeiriad at bwysau, pan ddylai'r cyfeiriad fod wedi bod at gyfaint. Mae hyn yn golygu y bydd Atodlen 3 yn gyson â Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Lloegr a'r Alban) 2015.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*“Stakeholders have not been consulted regarding the exemption from the payment of fees for pre-export and export certification services where goods are moving from Wales to a business or private individual in Northern Ireland, as these amendments are*



*considered technical operability amendments and provide an exemption to the payment of fees."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb oddi wrth Llywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 7 Mehefin 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

